# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 21
17/08/20

## Naw pla

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Jean Owen & Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Moses, “Mae'r Pharo mor ystyfnig. Mae'n gwrthod rhyddhau y bobl. Bore yfory, dos i'w gyfarfod pan fydd yn mynd i lawr at yr afon. Dos i sefyll ar lan afon Nîl, yn disgwyl amdano. Dos â dy ffon gyda ti, sef yr un wnaeth droi'n neidr. Dwed wrtho, ‘Mae'r ARGLWYDD, Duw yr Hebreaid, wedi fy anfon i atat ti i ddweud, “Gad i'm pobl fynd yn rhydd, iddyn nhw fy addoli i yn yr anialwch!” Ond hyd yn hyn rwyt ti wedi gwrthod gwrando. Felly mae'r ARGLWYDD yn dweud: “Dyma sut rwyt ti'n mynd i ddeall mai fi ydy'r ARGLWYDD: Dw i'n mynd i daro dŵr afon Nîl gyda'r ffon yma, a bydd yn troi yn waed. Bydd y pysgod yn marw, a bydd afon Nîl yn drewi. Fydd pobl yr Aifft ddim yn gallu yfed dŵr ohoni.”’”



Yna dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Moses, “Dwed wrth Aaron am estyn ei ffon dros ddyfroedd yr Aifft – yr afonydd, y camlesi, y corsydd a'r dŵr sydd wedi'i gasglu – er mwyn i'r cwbl droi'n waed. Bydd gwaed drwy'r wlad i gyd, hyd yn oed yn y bwcedi pren a'r cafnau carreg.”

Dyma Moses ac Aaron yn gwneud yn union fel roedd yr ARGLWYDD wedi gorchymyn. Codi'r ffon a tharo dŵr afon Nîl o flaen llygaid y Pharo a'i swyddogion. A dyma ddŵr afon Nîl yn troi'n waed. Dyma'r pysgod yn yr afon yn marw, ac roedd y dŵr yn drewi mor ofnadwy, doedd pobl yr Aifft ddim yn gallu ei yfed. Roedd gwaed drwy wlad yr Aifft i gyd! Ond dyma ddewiniaid yr Aifft yn gwneud yr un peth drwy hud a lledrith. Felly roedd y Pharo mor ystyfnig ag erioed, ac yn gwrthod gwrando ar Moses ac Aaron, yn union fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud. Dyma'r Pharo'n mynd yn ôl i'w balas, yn poeni dim am y peth. Ond roedd pobl gyffredin yr Aifft yn gorfod cloddio am ddŵr, am eu bod yn methu yfed dŵr afon Nîl.


*Exodus 7:14-24  Beibl.net*

*Darllenwch y stori gyfan yma ym mhenodau 7-11:*

http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=7&book=BNET%3AExo&viewid=BNET%3AExo.7

## Fersiwn syml

Anfonodd Duw Moses i ddweud wrth Pharo am ollwng ei bobl yn rhydd. Ni wrandawodd Pharo felly roedd rhaid i Dduw weithredu i'w berswadio. Trodd yr holl ddŵr yn waed, roedd llyffantod ym mhobman, roedd llau yn gwneud i bawb grafu a phryfed yn llenwi'r aer. Yna bu farw'r anifeiliaid i gyd, roedd y bobl wedi eu gorchuddio â doluriau, cwympodd cenllysg anferth a thorri'r planhigion i gyd cyn i locustiaid ddod i'w bwyta. Aeth yn dywyll iawn.



Aeth y brenin yn fwy ystyfnig ac wrthod â gwrando ar Moses a rhybudd Duw.  Nid oedd y Pharo am adael i bobl Israel fynd yn rhydd. Dywedodd Duw wrth Moses, “Dwi am daro Pharo a’r Aifft am y tro olaf. Cewch fynd yn rhydd ganddo wedyn.”

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti’n adnabod rhywun ystyfnig? Efallai dy fod ti’n gallu bod yn ystyfnig weithiau!
2. Pwy yn yr hanes o’r Beibl yr wythnos hon oedd yn ystyfnig?
3. Beth oedd neges Moses gan Dduw i’r person ystyfnig yn yr hanes?
4. Beth oedd canlyniad peidio â gwrando ar neges Duw?




# Stori i'w lliwio I

## MOSES a'r deg pla (rhan 1)


www.lambsongs.co.nz Jill Kemp (cyf. Susan Willliams) Lluniau: Richard Gunther




Yn yr Aifft roedd plant Israel wedi cael eu gwneud yn gaethweision i'r Pharo.Pan ddywedodd Duw wrth Moses ei bod yn amser i'w blant fynd adref i'r tir roedd wedi ei addo iddyn nhw, anfonodd ddeg pla nes i'r Pharo gytuno iddyn nhw gael gadael.




Roedd y Pharo, brenin yr Aifft wedi rhoi tir Goshen i deulu Joseff dros 400 mlynedd yn ôl. Wedi iddo farw roedd y Pharo newydd wedi cam- drin yr Israeliaid ac erbyn hyn roedden nhw'n gaethweision iddo.




Anfonodd Duw Moses ac Aaron i ddweud wrth y Pharo am adael i bobl Dduw fynd adref. "Os fyddi di'n gwrthod," meddai Aaron, "bydd Duw yn anfon plâu nes y byddi di'n eu rhyddhau." Ond roedd y Pharo'n ddyn pengaled a wnai o ddim gwrando.




Am saith diwrnod hir fe wnaeth Duw droi'r holl afonydd a'r holl ddŵr yfed yn waed ac felly bu farw'r holl bysgod ac roedd yr arogl yn afiach. Ond roedd y Pharo'n dal i wrthod ufuddhau i Dduw.




Unwaith eto dywedodd Aaron, "Gad i bobl Israel fynd yn rhydd er mwyn iddyn nhw gael gwasanaethu Duw neu fe fydd yn anfon pla o lyffantod drwy'r Aifft i gyd. Roedd y pla o lyffantod mor ddiflas a bu Pharo'n agos iawn i adael i blant Israel fynd yn rhydd ond fe newidiodd ei feddwl.



Felly anfonodd Duw bla o lau ac roedd pawb yn yr Aifft yn cosi ac yn crafu. Roedd hyd yn oed gwŷr doeth Pharo'n dweud mai gwaith Duw oedd hyn ond roedd Pharo'n dal i fod yr un mor bengaled ag erioed ac yn gwrthod gwrando.



Yna anfonodd Duw heidiau o bryfed drwy'r Aifft ond doedd dim golwg ohonyn nhw yng ngwlad Goshen. Roedd y pla o bryfed mor ddrwg nes y bu'n rhaid i'r Pharo alw am Moses ac Aaron.




"Cewch fynd ychydig o'r ffordd allan i'r wlad i addoli Duw ond ar yr amod eich bod yn gofyn iddo wneud i'r pryfed ddiflannu," addawodd y Pharo. Ond pan ddiflannodd y pryfed newidiodd ei feddwl unwaith eto.


# Stori i'w lliwio 2

## MOSES a'r 10 pla (rhan 2)


www.lambsongs.co.nz Jill Kemp (cyf. Susuan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Roedd plant Israel wedi cael eu gwneud yn gaethweision i'r Pharo yn yr Aifft. Pan ddywedodd Duw wrth Moses ei bod hi'n amser i blant Israel fynd adref i'r wlad roedd o wedi ei haddo iddyn nhw, anfonodd ragor o blâu ofnadwy hyd nes y byddai Pharo'n cytuno i'w rhyddhau.



Ond roedd y Pharo'n parhau i fod yn ystyfnig a gwrthododd newid ei feddwl, felly anfonodd Duw salwch ar wartheg yr Eifftwyr ac mewn canlyniad roedd pobl yr Aifft yn dechrau llwgu. Ond roedd gwartheg plant Israel yn iach.




Gofynnodd Moses eto i'r Pharo i ryddhau pobl Israel ond gwrthododd yn bendant, felly anfonodd Duw gornwydydd a doluriau i boeni'r Pharo a'r Eifftwyr. Roedden nhw'n teimlo'n sâl ac yn ddolurus. Ond wnai Pharo ddim newid ei feddwl.



Roedd y Pharo'n parhau i ddweud na fyddai'n rhyddhau pobl Israel ac felly anfonodd Duw fellt a chenllysg anferthol oedd yn rhwygo'r dail o'r coed, yn cychwyn tanau ac yn difetha cnydau bwyd yr Eifftwyr.




Yna anfonodd Duw haid anferthol o locustiaid drwy wlad Israel. Wnaethon nhw fwyta popeth gwyrdd a phopeth maethlon ond ni wnaeth y locustiaid fwyta cnydau'r Israeliaid.



Er hyn ni wnaethai'r Pharo newid ei feddwl,felly anfonodd Duw dywyllwch dudew dros wlad yr Aifft, ond roedd gan blant Israel oleuni yn eu cartrefi a dim tywyllwch o gwbl.



Wedi hyn anfonodd Duw y degfed pla a hwn oedd yr un gwaethaf oherwydd bu farw plentyn hynaf yn nheulu pob Eifftiwr. O'r diwedd newidiodd y Pharo ei feddwl. Dywedodd wrth Moses ac Aaron a'r Israeliaid i adael.



Y diwrnod canlynol gadawodd holl blant Israel yr Aifft gan ddilyn Moses i'r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddyn nhw. Wedi bod yn gaethweision am 430 o flynyddoedd roedden nhw'n rhydd o'r diwedd, yn union fel roedd Duw wedi addo y bydden nhw.

# Gweddi fer

O Dduw, brenin yr holl fyd, rwyt Ti mor dda.
Diolch i Ti dy fod eisiau'r gorau i mi bob amser.
Maddau i mi nad ydw i'n cofio hynny bob amser,
ac eisiau fy ffordd fy hun.
Diolch am ofalu amdana i bob amser.
Amen.




# Posau


## 9 pla cyntaf





Trwy ddefnyddio'r stori, a allwch chi roi'r lluniau hyn o'r
9 pla mewn trefn a'u rhifo?







## Pos y briciau

Mae'r adnod wedi ei chymysgu ar y briciau a rhai o'r geiriau wedi eu torri! Torra'r briciau allan a'u hailosod i roi'r adnod yn ôl yn ei threfn gywir (Exodus pennod 8 adnod 1 Beibl.net).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| eud wr | th Mose | m pobl fy | WYDD yn dw | t y Phar |
| nd yn rhy | s, "Dos a | Dyma'r ARGL | yn nhw ga | |
| oli i!" | a mae'r AR | dd, idd | tho, 'Dym | ud: "Gad i' |
| n ei ddwe | o a dw | eud wr | GLWYDD y | el fy add |

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | A | E | R | B | E | H | O | R | A | PH |
| O | A | I | FF | T | PH | D | O | TH | R | W | G |
| T | M | Ŵ | C | A | Y | G | A | D | A | E | L |
| N | O | D | E | W | G | W | R | A | N | D | O |
| A | S | E | N | U | M | E | LL | S | I | E | C |
| FF | E | N | LL | D | A | PH | E | W | A | B | U |
| Y | S | T | Y | F | N | I | G | O | CH | Y | S |
| LL | D | R | S | U | N | O | R | A | A | W | T |
| E | Ŵ | W | G | W | A | E | D | U | FF | G | I |
| D | E | F | Y | R | P | G | P | O | L | I | A |
| M | A | R | W | U | I | S | N | L | T | O | I |
| S | A | N | I | F | E | I | L | I | A | I | D |

AARON
AIFFT
ANIFEILIAID
CENLLYSG
DOLURIAU
DUW
DŴR
FFON
GADAEL
GWAED
GWRANDO
GWRTHOD
GWYBED
HEBREAID
LOCUSTIAID
LLYFFANTOD
MARW
MOSES
PLA
PRYFED
PHARO
TYWYLLWCH
YSTYFNIG

# Dolenni







Sgetsh bypedau - Moses a’r plâu https://youtu.be/OVX4ACkLQe4

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/3R7Iwttlpa4



Fideo o’r stori https://youtu.be/pSwRshSCcms





Cartŵn o’r stori https://www.youtube.com/watch?v=rzcYLCYItuc

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch ‘Subscribe’)*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Sialensau



## Chwilio am Bryfed

Sawl pryfyn gwahanol fedri di ddod o hyd iddo?

- Dos i chwilio am bryfed. Gelli ddod o hyd iddyn nhw fel arfer drwy edrych o dan gerrig neu frigau. (Cofia eu rhoi nhw'n ôl wedyn yn yr un lle.)
- Edrycha hefyd o dan ddail neu ar flodau ac efallai y gweli di wenyn, pili pala, buwch goch gota, gwlithen neu falwen.
- Ysgrifenna enwau beth ddoist ti o hyd iddyn nhw neu gwna luniau ohonynt.



## Peintio gyda mwd

Peintia lun gan ddefnyddio mwd yn lle paent. Chwilia am bridd lliwiau brown amrywiol a'i gymysgu gyda dŵr i greu paent.

# Crefft

## Pypedau Bysedd Plâu'r Aifft


**Byddi angen:** y dudalen hon wedi ei hargraffu, bocs bwyd gwag, siswrn, glud, pinnau ffelt a thâp selo.







1. Lliwia gwahanol blâu'r Aifft.
2. Torra'r siapiau allan.
3. Gluda'r siapiau yn y bocs bwyd gwag.
4. Torra nhw allan.
5. Tapia bennau'r stribedi yn ei gilydd i ffitio am dy fysedd a dy fawd.
6. Ailadrodda'r stori gan ddefnyddio'r pypedau bysedd.



# Gweddi Greadigol

## Creu Ciwb Gweddi

Dywedodd Duw wrth Moses am fynd i'r Aifft i siarad gyda'r Pharo. Aeth Moses i ofyn i'r Pharo am ganiatâd i bobl Israel gael addoli Duw. Ond wnai'r Pharo ddim gadael i'r bobl fynd oherwydd ei fod yn ddyn ystyfnig.


Lluchia'r ciwb gweddi er mwyn gweld ar ba ochr y bydd yn glanio.

**Addoli** Duw – Fedri di ganu cân rwyt ti wedi ei dysgu i Dduw?

**Diolch** i Dduw – Beth am ddiolch i Dduw am yr hyn mae o wedi ei wneud droston ni?

**Sori** Dduw – Meddylia am y pethau rwyt ti wedi eu gwneud sy'n anghywir a dyweda mae'n ddrwg gen i wrth yr Arglwydd.

<u>**Templed y Ciwb:**</u>



# Rysáit



## Jeli llyffantod



**Byddi angen:**
- Paced o jeli gwyrdd
- Freddos – un yr un
- Cwpanau/bowlenni i'r jeli setio ynddyn nhw

**Dull:**
1. Dilyna'r cyfarwyddiadau ar y paced i wneud y jeli.
2. Rho'r jeli yn y mowldiau. (y cwpanau neu'r bowlenni)
3. Rho'r jelis yn yr oergell i setio.
4. Pan fydd y jeli wedi setio rho'r Freddo ynddo.
5. Addurna'r cyfan wedyn â sprincls cyn gweini'r pryd.




## Ffilm

Wrth i ni edrych ar stori Moses, beth am i chi gael copi o'r ffilm 'Prince of Egypt' a'i gwylio gyda'ch gilydd fel teulu yn ystod yr haf? Fe allech chi wneud neu brynu popgorn i'w fwynhau wrth wylio'r ffilm.

# Canu

Pharo, mae Duw yn dweud, "Gollwng fy mhobl yn rhydd!"
Ond nid oedd Pharo yn ufuddhau.
"Bydd Duw yn anfon plâu nes y byddi di'n eu rhyddhau."

Wnaeth y dŵr droi yn waed.
Roedd llyffantod wrth eu traed.
Wnaethon nhw grafu achos llau.
Roedd 'na bryfed yn yr aer.
Bu farw'r anifeiliaid i gyd.
Roedd doluriau ar groen bob un
Wnaeth y cenllysg rwygo'r holl ddail.
Roedd locustiaid yn llenwi pob cae.
Roedd tywyllwch yn gorchuddio'r tir.
Bu farw eu meibion - mae'n wir.
Ac yn y diwedd dwedodd Pharo
"Iawn! Wna i ollwng dy bobl yn rhydd."



*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/3R7Iwttlpa4



# Gemau



## Gêm Cofio

**Byddi angen:**

- Twb mawr
- Rhywfaint o dywod neu bridd
- Gwrthrychau i gynrychioli pob pla e.e. rhywbeth coch, llyffantod, tegan bychan neu ddarn o wlân, pryfed tegan, babi dol, tameidiau o ffoil, buwch degan, gwybedyn tegan, sbectol haul a pherson tegan. Os nad oes gen ti'r pethau hyn fe allet ti dorri'r lluniau allan o'r daflen lliwio'r wythnos hon.

**Sut i chwarae:**



- Gosoda'r deg eitem yn y twb sydd wedi ei lenwi â thywod neu bridd. (Gelli eu gosod ar hambwrdd os dwyt ti ddim eisiau defnyddio tywod a phridd.)
- Rho ddau funud i bawb edrych ar yr hyn sydd yn y twb yna mae pawb, ac eithrio'r arweinydd, yn cau eu llygaid neu droi eu cefnau ar yr arweinydd. Yna mae'r arweinydd yn tynnu un eitem ac mae pawb yn troi rownd i edrych yn y twb ac yn ceisio dyfalu pa wrthrych sydd wedi diflannu.
- Yna mae'r arweinydd yn rhoi'r eitem yn ôl ac yn tynnu un arall a phawb yn ceisio dyfalu pa un sydd wedi ei gymryd o'r twb y tro hwn. Bydd y gêm yn darfod wedi i bob un o'r eitemau gael eu dyfalu.


## Pasio'r pla

**Byddi angen:**

- 5 peg pren i bob chwaraewr
- lluniau pla
- siswrn a glud
- 3 neu fwy o chwaraewyr
- lle i chwarae tu allan.

**Sut i chwarae:**

- Penderfyna ble fyddwch chi'n chwarae – ble mae'r ffiniau. Mae angen lle i redeg o gwmpas.
- Bydd angen paratoi'r pegiau yn gyntaf: Defnyddia luniau'r 5 pla hyn i'w gludo ar begiau: llyffant, gwybed, pryfed, dolur, cenllysg
- Mae pob chwaraewr yn cael 5 peg (1 o bob pla).
- Pan fydd rhywun yn galw "1 – 2 – 3. Ewch!" mae'r chwaraewyr yn ceisio pegio peg ar gefn chwaraewr arall.
- Y chwaraewr cyntaf i gael gwared â'i begiau i gyd sy'n ennill.



# Gemau

## Parau: Y 9 pla cyntaf

Torra'r cardiau allan, eu cymysgu a'u troi wyneb i lawr.
Mae pob chwaraewr yn cymryd ei dro i droi 2 gerdyn.
Os wyt ti’n dod o hyd i 2 sydd yr un peth, rwyt ti'n eu cadw ac yn cael tro arall.
Os na, tro nhw’n ôl wyneb i lawr a bydd y chwaraewr nesaf yn cael tro.
Yr enillydd yw'r chwaraewr gyda'r nifer fwyaf o barau ar y diwedd.